**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
**a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach**
**ar ddydd Mawrth, 21 Hydref, 2014.**

**Yn bresennol**: y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o ysgolion**: Mr Eifion Evans, Mr Barry Rees.

**Aelodau o Ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd: Alwyn Ward, Donna Hanly (Penaethiaid), Lodwick Lloyd a Peter Wellington (Llywodraethwyr).

Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion 3-16, 3-19: Jane Wyn (Pennaeth).

**Swyddogion yn bresennol**: Chris Macey (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00 pm – 8.15 pm

**1 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Gwyn Jones, Chris Evans a Derrick Jones am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiant Personol**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

**3 Cofnodion Cyfarfod Blaenorol**
**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014 yn rhai cywir.

**4 Materion yn Codi o'r Cofnodion (19.05.14)**
**5. Fformiwla Arian 2014 – 15 –** Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau nad yw'r newidiadau i'r Gymhareb Disgybl Athro, ar hyn o bryd, wedi ei gynnwys yn yr argymhellion ar gyfer arbed arian yn 2015-16.

**5 Perfformiad Ariannol Gwasanaethau Dysgu 2014-15**
Bu i Chris Macey, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol gyflwyno adroddiad ariannol ar gyfer chwarter 1(hyd at ddiwedd Mehefin 2014) gan nodi fod yr adroddiad ar gyfer chwarter 2 yn dod at ei derfyn ar hyn o bryd. Nodwyd ers chwarter 1 y cafwyd effaith andwyol ar y Gyllideb am na chaewyd Ysgol Gynradd Dihewyd gan na fu'n bosib gwireddu'r arbedion a nodwyd petai'r ysgol wedi cau. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at HCT a'r anawsterau sy'n parhau i achosi pryder. Mae'r contract cyfredol gyda HCT yn dod i ben ym mis Mawrth 2015 ac edrychir ar sut y gellir parhau â'r gwasanaeth anstatudol yma o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Bwriedir mynd ag adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu. Tynnwyd sylw at y gostyngiad yn yr incwm yn lefelu allan ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r Sir am fod siroedd eraill sy'n wynebu her ariannol gyda chyllidebau llai yn anfon llai o ddisgyblion i'r Sir yma.

Nodwyd gan Chris Macey y caiff y modd y gosodwyd yr adroddiad ei newid yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn dilyn ailstrwythuro Gwasanaethau Dysgu i bedwar prif wasanaeth.

Mae rheoli'r gyllideb yn profi'n her gan fod y ddyled wedi dyblu yn y chwarter diwethaf. Caiff adroddiad ar hyn ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

**CYTUNWYD** nodi'r adroddiad.

**6 Y diweddaraf ar Grantiau Llywodraeth Cymru 2014-15**

Cafwyd trosolwg o'r toriadau yn y gyllideb a oedd yn wynebu'r Cyngor ar gyfer blwyddyn 2015 - 16 gan Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i sybsideiddio'r gorwariant yn y Gwasanaeth Iechyd. Nodwyd fod grantiau ers hynny wedi eu huno i ffurfio tri grant - y grant Rhanbarthol, grant Awdurdod Lleol a'r grant amddifadedd disgyblion. Bydd hyn yn hwyluso'r broses archwilio gan fod yn seiliedig ar ganlyniadau nid gwariant. Fodd bynnag bydd toriadau o £100k ar gyfer eleni ac yna £200k am y flwyddyn nesaf yn cael effaith ar ysgolion ac y mae trafodaethau yn cymryd lle ar sut i leihau'r effaith yma gymaint â phosib. Edrychir ar hyn o bryd ar yr opsiwn o gael gostyngiad sylweddol yn y staff canolog er mwyn diogelu cyllidebau ysgol.

Fodd bynnag bydd y grantiau hyblyg yn golygu y gellir targedu mwy o adnoddau.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7 Casglu Arian yn Electronig**

Nodwyd fod y gost o gasglu arian cinio oddeutu £90k. Bwriedir cynnal peilot mewn ysgol benodol lle defnyddir system electronig i gasglu arian cinio. Os bydd yn realistig, gwneir penderfyniad ar weithredu'r system ar draws y Sir. Gellir defnyddio'r system i gasglu arian eraill fel tripiau ysgol a theithiau eraill.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**8 Y diweddaraf ar Gyllideb 2015-16**

Bu i Gadeirydd a Chyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaeth ddarparu gwybodaeth gefndir i doriadau o dros £9.5m yn y gyllideb y flwyddyn nesaf. Ymgysylltwyd â'r cyhoedd ar doriadau yn y gyllideb dros fisoedd yr haf ac yn dilyn hyn clustnodwyd £6.5m o arbedion ac ymgynghorwyd arnynt ar hyn o bryd. Bydd angen clustnodi £3m pellach cyn diwedd 2014.

Mae'n bosib y bydd arbedion o Wasanaethau Dysgu yn cynnwys arbedion o £1m yn dilyn gostyngiad mewn lleoliadau arlwyo ar draws y Sir a bydd o bosib angen i ysgolion â cheginau modern i wneud y gorau o'u cyfleusterau a pharatoi bwyd ar gyfer ysgolion eraill.  Edrychir am arbedion pellach o £0.5m drwy godi tâl am gludiant ôl 16 oed a rhesymoli teithiau bysiau.

Nodwyd y gall gwybodaeth ar fanylion costau clybiau brecwast ysgolion eu darparu i ysgolion os bydd angen.

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau y comisiynwyd adolygiad i ddarpariaeth ysgolion yn ardal Aberystwyth ac y mae'n cynnwys briff i archwilio holl elfennau o ddysgu er mwyn cyflwyno argymhellion ar gyfer darpariaeth cwricwlwm effeithiol ar draws y Sir. Bydd unrhyw argymhellion wedyn yn cael eu cyflwyno i'r broses ddemocrataidd.  Bydd hefyd angen ymrwymiad oddi wrth holl ysgolion o ran cyrsiau galwedigaethol a mynediad cyfartal i ddisgyblion.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9 Unrhyw fater arall**

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei ddosbarthu'n fuan.

Cadarnhawyd Cyfarfod y Fforwm ar xxxxxxx2015.

**Cadeirydd**

**Minutes of a Meeting of the Ceredigion Schools Budget Forum held at Ystafell Aeron Fach, Campws Felinfach on Tuesday, 21 October, 2014.**

**Present**: Councillor Hag Harris (Chairman).

**Non-schools members**: Mr Eifion Evans, Mr Barry Rees.

**Schools members**:
Primary Schools Representatives: Alwyn Ward, Donna Hanly (Heads), Lodwick Lloyd and Peter Wellington (Governors).

3-16, 3-19 and Secondary Schools Representatives: Jane Wyn (Head).

**Officers in attendance**: Chris Macey (Head of Financial Services), Kay Davies (Democratic Services).

7.00 pm – 8.15 pm

**1 Apologies**
Councillor Ellen ap Gwynn, Gwyn Jones, Chris Evans and Derrick Jones apologised for their inability to attend the meeting.

**2 Disclosures of Personal Interest**
There were no disclosures of personal interests.

**3 Minutes of the Previous Meeting**
It was **AGREED** to confirm as a true record the minutes of the meeting held on 19th May, 2014.

**4 Matters Arising from the Minutes (19.05.14)**
**5. Formula Funding 2014 – 15 -** The Strategic Director for Learning and Partnerships informed the meeting that, currently, changes to the Pupil Teacher Ratio are not included in the budget savings proposals for 2015-16.

**5 2014-15 Learning Services Financial Performance**
Chris Macey, Head of Financial Services, presented the financial report for quarter 1(to the end of June 2014) and noted that the report for quarter 2 is currently being finalised. He noted that since quarter 1, the budget has been adversely affected by the non-closure of Dihewyd Primary School as they have been unable to achieve the savings had the school been closed. The report also refers to HCT and difficulties which continue to be a cause for concern. The current contract with HCT comes to an end in March 2015 and avenues are being explored as to how to continue this non statutory service from April 2015 onwards. A report will be taken to the Learning Communities Overview and Scrutiny Committee. The fall in income levels for out-of-county placements were

also highlighted as other counties who are also facing financial challenges with reduced budgets send fewer of their pupils to this county.

Chris Macey noted that the lay-out of the report in future will be amended to reflect changes following the restructuring of Learning Services into four main services.
Controlling the budget is proving to be a challenge with the debt having doubled since the last quarter. A report in relation to this will be presented to Cabinet shortly.

It was **AGREED** to note the report.

**6 2014-15 Welsh Government Grants Update**

The Strategic Director for Learning and Partnerships gave an overview of the budgetary cuts facing the Council for the year 2015-16 due to WG's decision to subsidise the overspend of the Health Service. He noted that grants have since been pooled together to form three grants - the Regional grant, Local Authority grant and the pupil deprivation grant. This will facilitate the auditing process and will be based on outcomes not expenditure. However, the £100k cuts for this year followed by the £200k for next year will have an impact on schools and discussions are taking place as to how to reduce the impact as much as possible. A significant reduction in central staff in order to protect school budgets is the option being examined at the moment.

However, the flexibility in grants will mean that resources will be able to be more targeted.

It was **AGREED** to note the information provided.

**7 Electronic Money Collection**

It was noted that the cost of collecting school dinner money is currently £90k. A pilot is to be run at an identified school where an electronic system will be used to collect dinner money. If successful, a decision will be made as to rolling out the system across the county. The system could also be used for other money collections such as school trips and outings.

It was **AGREED** to note the information provided.

**8 2015-16 Budget Update**

The Chair and the Strategic Director for Learning and Partnerships provided background information to next year's budgetary cuts of over £9.5m. Public engagement on budgetary cuts has taken place over the summer months and, following this, £6.5m of savings have been identified and currently are being consulted upon. A further £3m will need to be identified before the end of 2014.

Savings from Learning Services may include savings of £1m following a reduction in catering venues throughout the county which may require the schools with state of the art kitchens to maximise their facility and prepare food for other schools. A further £0.5m savings are being sought by charging for post 16 transport and the rationalisation of bus routes.

It was noted that information in relation to school breakfast clubs' cost breakdown can be provided to schools if required.

The Strategic Director for Learning and Partnerships noted that a review into school provision in the Aberystwyth area has been commissioned and includes a brief to examine all aspects of learning in order to put forward proposals for a cost effective curriculum provision across the county. These proposals would then be taken through the democratic process. Commitment would be required from all schools in relation to vocational courses and equity of access for pupils.

It was **AGREED** to note the information provided.

**9 Any other business**

The date of the next meeting will be circulated shortly.

Confirmed at the Meeting of the Forum held on xxxxxx, 2015.

**Chairman**